Kirsty Williams, AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru

23 Hydref 2018

Annwyl Kirsty

Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Gyllido Ysgolion

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i Gyllido Ysgolion. Cafodd ein galwad am dystiolaeth ysgrifenedig ei lansio ar 13 Hydref 2018 ac mae'n agored tan 14 Rhagfyr 2018. Ceir copi o Gylch Gorchwyl yr Ymchwiliad yn Atodiad A.

Er mwyn helpu i sicrhau bod ymchwiliad y Pwyllgor yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl o'r dechrau, byddai'n ddefnyddiol iawn i'r Pwyllgor pe gallech ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- Eich asesiad a'ch barn o ran pa mor ddigonol yw cyllidebau ysgolion ac i ba raddau y mae'r lefel bresennol o ddarpariaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno blaenoriaethau ac amcanion addysg Llywodraeth Cymru;
- Sut mae gofynion gwasanaethau addysg, ac ysgolion yn benodol, yn cael eu hystyried o fewn cyfanswm y setliad a roddir i awdurdodau lleol a'i ddyraniad ymhlith awdurdodau lleol;
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r blaenoriaethau a roddir gan awdurdodau lleol i gyllidebau addysg ac ysgolion o fewn eu cyllideb gyffredinol, gan gynnwys lefelau cyllid dirprwyedig i ysgolion ac unrhyw

fonitro o ran gwariant a gyllidebwyd yn erbyn Asesiadau Gwariant Safonol ac Asesiadau Seiliedig ar Ddangosyddion;

- Trosolwg Llywodraeth Cymru o'r fformiwlâu a ddefnyddir gan awdurdodau lleol ar gyfer dyrannu cyllidebau dirprwyedig i ysgolion unigol o dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010;
- Crynodeb o'r fformiwlâu a ddefnyddir gan bob awdurdod lleol, os yw Llywodraeth Cymru yn meddu ar y wybodaeth hon (nodwch fod y Pwyllgor wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am y manylion hyn);
- Crynodeb o ddatblygiadau polisi allweddol sy'n effeithio ar y ffordd y caiff ysgolion eu cyllido ers gwaith Pwyllgor yr Ail Gynulliad ar Gyllido Ysgolion, a gyhoeddwyd yn 2006, gan gynnwys deilliannau o'r 'Adolygiad Bramley'.

Bydd y Pwyllgor yn dechrau cymryd tystiolaeth lafar ar yr ymchwiliad hwn yn fuan ar ôl Toriad y Nadolig. Byddai'n ddefnyddiol felly derbyn y wybodaeth hon erbyn 14 Rhagfyr 2018, fel y gall helpu i roi gwybodaeth i'r Aelodau cyn y sesiynau tystiolaeth lafar.

Hoffwn eich gwahodd hefyd i ddod i gyfarofd o'r Pwyllgor ar 14 Mawrth 2018, sef y sesiwn dystiolaeth lafar olaf ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Cyn y sesiwn honno, byddai'r Pwyllgor yn hapus iawn i dderbyn unrhyw wybodaeth bellach y credwch sydd ei hangen, yn ychwanegol at y wybodaeth y gofynnir amdani yn y llythyr hwn.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i chi am eich sylw i'r pwnc hwn ac mae'n edrych ymlaen at gydweithio â chi yn ystod yr ymchwiliad.

Yn gywir



Lynne Neagle AC Cadeirydd

Atodiad A

Cylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i'r canlynol:

- digonolrwydd cyllid ysgolion yng Nghymru; a
- sut y mae cyllidebau ysgolion yn cael eu pennu a'u dyrannu. Bydd yr ymchwiliad yn canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- digonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cyllidebau ysgolion yng nghyd-destun cyllidebau gwasanaethau cyhoeddus eraill a'r adnoddau sydd ar gael;
- i ba raddau y mae lefel y ddarpariaeth ar gyfer cyllidebau ysgolion yn ategu neu'n rhwystro'r gwaith o gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru;
- y berthynas, cydbwysedd a thryloywder rhwng ffynonellau cyllid amrywiol ysgolion, gan gynnwys cyllidebau craidd a chyllid neilltuedig;
- y fformiwla ariannu llywodraeth leol a'r pwysoliad a roddir i gyllidebau addysg a chyllidebau ysgolion yn benodol yn y Setliad Llywodraeth Leol;
- Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru ynghylch sut y mae awdurdodau lleol yn pennu cyllidebau ysgolion unigol, gan gynnwys, er enghraifft, y pwysoliad a roddir i ffactorau megis proffil oedran y disgyblion, amddifadedd, iaith y ddarpariaeth, nifer y disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a darpariaeth cyn oedran gorfodol;
- y cynnydd a'r datblygiadau ers adolygiadau blaenorol pwyllgorau'r Cynulliad;
  (er enghraifft, rhai'r Pwyllgor Menter a Dysgu yn y Trydydd Cynulliad); ac
- argaeledd cymariaethau rhwng cyllid addysg a chyllidebau ysgolion yng Nghymru a gwledydd eraill y DU a'r defnydd ohonynt.